## Lle Iachus

**Man lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobol yn cael ei fwyhau a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.**

### Sefyllfa a gweithredoedd cyfredol

Mae proffil ystadegol yr ardal yn nodi rhai gwahaniaethau arwyddocaol yn amodau iechyd gwahanol wardiau. Mae cyflyrau cronig megis asthma, arthritis a chlefyd y galon yn 50% yn uwch na'r cyfartaledd mewn rhai wardiau. Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio ar draws yr ardal yn rhoi pwysau arbennig ar wasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd yn Llanelli a chydnabyddir fod gwaith ymyrraeth ochr yn ochr â'r gymuned yn gwbl hanfodol i wella canlyniadau. Mae canlyniadau'r arolwg cymunedol hefyd yn nodi enghreifftiau o bobol sy'n teimlo'n ynysig, yn rhannol oherwydd eu lleoliad ond hefyd oherwydd y diffyg cyfle i gymdeithasu gydag eraill, yn enwedig yn ystod y dydd.

Effeithir ar les meddyliol pobol gan gyflwr yr amgylchedd lleol, amlygwyd pryderon cyson ynglŷn â baw cŵn, sbwriel a thipio anghyfreithlon ar draws yr ardal yn y gweithdai a'r arolygon cymunedol.

### Ymyriadau arfaethedig

**Cymuned ofalgar – cydweithrediad ardal leol**
Cefnogi cynlluniau gofal cymunedol Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Bwrdd Iechyd Lleol gyda rhwydwaith cryfach o ofal, cymorth a sefyllfaoedd cymdeithasol yn y gymuned.

Hyrwyddo'n weithredol y defnydd o ganolfannau cymdeithasol fel mannau gwybodaeth a chlinigau iechyd allanol ynghyd â darparu mwy o weithgareddau hamdden yn ystod y dydd wedi'u datblygu mewn cysylltiad â chyfeillion stryd lleol i gefnogi ymyriad cynnar.

**Cadw Llanelli'n Daclus**

Rhaglen Balchder Yn y Gymuned eang yn cynnwys Credydau Amser, glanhau'r gymuned, addysg a gorfodaeth.

Adeiladu ar waith a wnaed gan Cadw Cymru'n Daclus a thimau Trefi Taclus CSC/Amddiffyn yr Amgylchedd i drosglwyddo effaith lleol ehangach, sicrhau mwy o berchnogaeth ac ymgysylltiad lleol. Eir i'r afael â Glasu, Yn eu blodau, mannau brwnt, baw cŵn, tipio anghyfreithlon o dan frand parhaus cyffredinol ar gyfer gweithredu.

**Partneriaid** – tîm lleol y Bwrdd Iechyd Lleol, pwyllgorau neuaddau cymunedol, ysgolion, grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol.

**Mesuriadau cynnydd** – Cynnydd yn y nifer o weithgareddau dydd mewn neuaddau cymunedol, glanhau yn y gymuned.

**Blaenoriaethau Lleol** – Pob ardal – Bynea, Dafen, Ionydd Ffwrnes, Parc Arfordirol y Mileniwm/Pwll, caeau Ponthenri.